Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Beauty Within Medi-Spa, Y Bont-faen

Dyddiad yr arolygiad: 5 Chwefror 2025
Dyddiad cyhoeddi: 8 Mai 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN Digidol 978-1-83715-650-4

© Hawlfraint y Goron 2025

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'r arolygiad ........ 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym ........ 8

- Ansawdd Profiad y Claf ........ 8
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol ........ 12
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 15

4. Y camau nesaf ........ 16

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 17

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........ 18

Atodiad C – Cynllun gwella ........ 19

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Beauty Within Medi-Spa ar 5 Chwefror 2025.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan ddau arolygydd gofal iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 44  o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod y cleifion wedi cael ansawdd gofal da yn Beauty Within Medi-Spa. Roedd hyn yn cynnwys trefniadau cadarn i gefnogi preifatrwydd ac urddas y cleifion yn llawn, gan roi sylw dyledus i'w cydraddoldeb a'u hawliau. Roedd y cleifion yn cael eu trin mewn ffordd urddasol drwy gydol eu taith fel cleifion gan staff parchus a chwrtais. Darparwyd gwybodaeth glir i gleifion cyn ac yn dilyn eu triniaethau i sicrhau bod eu hiechyd yn cael ei flaenoriaethu. Roedd y systemau ar waith i gofnodi cydsyniad cleifion yn gynhwysfawr a gwelsom fod adborth gan gleifion yn cael ei gofnodi ac yn cael ei ymateb iddo mewn modd amserol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:
- Roedd hanesion meddygol a newidiadau i amgylchiadau yn cael eu trafod cyn i gleifion gael unrhyw driniaeth
- Dywedodd pob un o'r cleifion fod y gwasanaeth yn ‘dda iawn’.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Roedd y lleoliad yn lân, yn daclus ac wedi ei gynnal a'i gadw'n dda a oedd yn hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd asesiadau risg yn addas a gweithdrefnau rheoli heintiau yn briodol. Gwelsom fod trefniadau ar waith ac wedi'i hamlinellu'n glir yng ngweithdrefnau'r lleoliad i ddiogelu'r oedolion agored i niwed. Mae'r peiriannau laser sy'n cael eu defnyddio yn y lleoliad yn cael eu cadw'n lân a'u gwasanaethu'n rheolaidd.

Ar y cyfan, roedd cofnodion y cleifion a welsom yn gynhwysfawr ac yn cynnwys lefel foddhaol o wybodaeth. Roedd cofnodion yn cynnwys adroddiadau llawn o hanesion meddygol y cleifion, profion croen a chydnawsedd croen ynghyd â chofnodion cydsyniad cadarn. Fodd bynnag, gwelsom fod un cofnod heb ei nodi yng nghofrestr triniaethau'r lleoliad ac mae angen gwella hyn.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:
- Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gweithdrefn gadarn ar waith i gofnodi'r holl driniaethau laser o fewn y gofrestr.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:
- Roedd triniaethau'n cael eu rhoi yn ddiogel ac yn effeithiol yn y lleoliad

- Roedd gwiriadau calibradu a glanhau peiriannau laser yn digwydd yn rheolaidd.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Roedd y trefniadau arwain a rheoli a oedd ar waith yn addas ar gyfer y gwasanaeth a ddarperir. Mae'r broses sydd ar waith ar gyfer rheoli pryderon, cwynion neu ddigwyddiadau yn addas ac yn diwallu anghenion y gwasanaeth a'r cleifion. Roedd y weithdrefn ar gyfer casglu geirdaon, gwiriadau cyflogi a gwiriadau ardystiad sydd eu hangen cyn cyflogi yn foddhaol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn glir ac yn gynhwysfawr.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

**Adborth gan gleifion**

Cyn ein harolygiad, gwnaethom wahodd y gwasanaeth i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn am y gofal a'r triniaethau a ddarperir. Cawsom gyfanswm o 44 o holiaduron wedi'u cwblhau. Dywedodd bron pob ymatebydd eu bod wedi ymweld â'r gwasanaeth yn ystod y deufis diwethaf. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth a gawsant yn 'dda iawn'. Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

> *"Mae'r Staff yn Beauty Within [Medi-Spa] yn broffesiynol iawn Rwy'n teimlo'n hyderus y bydd unrhyw driniaeth rwy'n ei chael yn cael ei chyflawn i safon uchel iawn."*

> *"Gwasanaeth cyfeillgar a llawn gwybodaeth. Roeddwn yn gallu cael ymgynghoriad cychwynnol ar y diwrnod y cerddais i mewn gydag ymholiad."*

> *"[mae'r staff yn] gyfeillgar a chroesawgar iawn ar y ffôn ac wyneb yn wyneb. Yn gwneud i chi deimlo'n gyfforddus yn syth. Rwy'n teimlo fy mod yn cael gwasanaeth personol. Does dim byd yn ormod o drafferth. Rwy'n argymell Beauty Within [Medi-Spa] yn fawr!"*

> *"Gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol iawn gan bob aelod o'r staff! Rhagorol!"*

> *"Roeddwn yn hapus iawn â'r gwasanaeth a ddarparwyd. Roeddwn yn teimlo'n hapus iawn â'r driniaeth a'r gofal a gefais. Byddaf yn dychwelyd."*

> *"Mae'r lleoliad yn darparu amgylchedd proffesiynol iawn ond hamddenol ar gyfer triniaeth. Roeddwn yn teimlo'n gyfforddus iawn."*

> *"Roedd popeth o'r radd flaenaf. Mae'r holl staff yn barod i helpu ac yn gwrtais."*

**Urddas a pharch**

Clywsom aelodau o'r staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd ystyriol a charedig. Roedd desg y dderbynfa a'r ardal aros wedi'u huno. Fodd bynnag, roeddent bob amser yn cynnig i gleifion drafod materion preifat i ffwrdd o ardal y dderbynfa.

Roedd ymgynghoriadau a thriniaethau yn cael eu cynnal mewn ystafell breifat yn y lleoliad. Roedd drws soled yr ystafell hon yn cael ei gloi yn ystod apwyntiadau er mwyn sicrhau preifatrwydd i gleifion. Roedd cleifion yn cael newid mewn preifatrwydd cyn triniaethau ac roedd arwyddion yn dangos pryd roedd cleifion yn cael eu trin er mwyn atal mynediad heb awdurdod.

Gellid caniatáu i hebryngwyr ddod i'r ystafell drin, pe gofynnwyd am hynny. Roedd pâr ychwanegol o sbectolau amddiffynnol ar gael er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel.

Dywedodd yr holl gleifion a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch a bod y staff wedi gwrando arnynt/ateb eu cwestiynau. Dywedodd y cleifion hefyd fod mesurau ar waith i ddiogelu eu preifatrwydd. Dywedodd y cleifion wrthym:

> *"Mae'r driniaeth bob amser yn cael ei chynnal yn ddiwyd ac yn barchus"*
>
> *"Caredig iawn"*
>
> *“Proffesiynol, hamddenol a chyfeillgar iawn”*
>
> *Cyfeillgar iawn”*

**Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion**

Roedd y polisi cydsynio cleifion yn gyfredol ac yn addas ar gyfer y gwasanaeth a ddarperir. Gwnaethom edrych ar gofnodion pum claf yn ystod ein harolygiad. Roedd yr holl gofnodion yn cynnwys ffurflenni ymgynghori cynhwysfawr a manylion y triniaethau a roddwyd. Roedd y cofnodion a welsom yn dangos bod gwiriadau cydsyniad a gwiriadau hanesion meddygol yn cael eu cofnodi ar gyfer pob triniaeth ddilynol. Roedd risgiau a manteision pob triniaeth yn cael eu rhoi i'r cleifion i'w llofnodi ac iddynt gytuno eu bod wedi'u darllen. Roedd cyngor ar ofal ar ôl triniaeth laser hefyd yn cael ei roi i bob claf ac roedd tystiolaeth o hyn yn y cofnodion a welsom.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr i'r holiadur wrthym eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael iddynt. Cadarnhaodd y cleifion hefyd fod y staff wedi esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud drwy gydol y driniaeth a'u bod wedi cael eu cynnwys gymaint ag yr oeddent yn ei ddymuno wrth wneud penderfyniadau am eu gofal iechyd. Dywedodd un claf:

> *"Gwasanaeth gwybodus a phersonol iawn."*

Dywedodd pob un o'r cleifion hefyd eu bod wedi cael cyngor ar ôl-ofal a dywedodd pob claf heblaw un eu bod wedi cael canllawiau clir ar yr hyn sydd i'w wneud mewn argyfwng neu pe baent yn datblygu haint.

**Cyfathrebu'n effeithiol**
Roedd y datganiad o ddiben ar gyfer y lleoliad yn gyfredol ac yn briodol. Roedd y canllaw i gleifion yn nodi'r holl wybodaeth berthnasol mewn perthynas â'r opsiynau triniaeth, costau, dull o fynegi pryder a gofal brys. Gwelsom fod y dogfennau hyn ar gael i'r cleifion yn y dderbynfa.

Gwelsom fod gwybodaeth addas yn cael ei rhoi i gleifion ar bob cam o'u taith cleifion, gan gynnwys y costau a'r opsiynau triniaeth wahanol. Roedd darparu'r wybodaeth hon yn cael ei lywodraethu gan bolisi priodol. Defnyddiodd y staff adnoddau cyfieithu ar-lein, lle y bo angen, fel bod cleifion yn gallu cyfathrebu â'r staff yn yr iaith fwyaf cyfforddus iddynt. Roedd cleifion yn trefnu apwyntiadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Nododd dau ymatebwr i holiadur AGIC mai Cymraeg oedd eu dewis iaith. Gwnaethant nodi eu bod wedi cael cynnig siarad Cymraeg a'u bod yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio eu dewis iaith. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y byddai dogfennau yr oedd eu hangen yn Gymraeg yn cael eu darparu ar gais.

**Cynllunio a darparu gofal**
Roedd cofnodion y pump claf a welsom yn ystod yr arolygiad yn cynnwys manylion yr ymgynghoriad cychwynnol, profion croen, a chydsyniad cleifion i driniaethau. Gwelsom yn ystod pob apwyntiad dilynol yn ein sampl, fod cleifion yn llofnodi i ddangos eu bod yn cydsynio i driniaeth ac i gadarnhau bod eu gwybodaeth hanes meddygol yn gywir o hyd.

**Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**
Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, gwnaethom nodi enghreifftiau boddhaol o'r ffordd roeddent yn trin cleifion yn gyfartal ac yn cynnal eu hawliau. Roedd yr enghreifftiau hyn yn cynnwys cyflwyno cadeiriau triniaeth modur yn ddiweddar i helpu cleifion â chyfyngiadau symudedd. Roedd gan y lleoliad bolisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith i atal aflonyddu a gwahaniaethu. Roedd hawliau cleifion yn cael eu cynnal ymhellach drwy eu galluogi i ddewis y rhagenwau a'r enwau a ffefrir ganddynt ar eu cofnodion.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i holiadur AGIC i gleifion (40/41) nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gael mynediad i'r gwasanaeth hwn na'i ddefnyddio. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym (39/42) y gallent gael gafael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir, gyda pharch dyledus at eu nodweddion gwarchodedig.

**Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth**

Roedd system gadarn ar waith ar gyfer casglu adborth gan gleifion ac ymateb iddo. Rhoddwyd ffurflenni adborth ysgrifenedig i'w cwblhau yn dilyn eu hapwyntiad ac roedd ffurflenni ar gael yn y dderbynfa. Roedd y lleoliad yn adolygu adborth gan gleifion yn rheolaidd a chafodd yr adborth ei drafod mewn cyfarfodydd staff. Cyhoeddwyd y sgoriau a gasglwyd yn ystod y broses adborth yn y canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

**Rheoli risg ac iechyd a diogelwch**
Gwelsom fod trefniadau addas ar waith i reoli a lleihau'r risgiau i'r cleifion a sicrhau eu bod yn ddiogel. Roedd y lleoliad yn cael ei gadw i safon dda er mwyn darparu gofal diogel i'r cleifion. Roedd yr holl dystysgrifau ar gyfer gwifrau trydanol, diogelwch nwy a phrofion offer cludadwy ar gael.

Roedd yr holl ragofalon diogelwch tân yn gadarn ac wedi'u hamlinellu mewn polisi dynodedig. Roedd y cofnodion y gwelsom yn dangos bod profion a gwiriadau diogelwch yn rheolaidd. Ymddangosodd arwyddion diogelwch priodol drwy'r lleoliad a dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth dda o'r hyn y dylid ei wneud mewn argyfwng.

Gwnaethom edrych ar asesiadau risg iechyd a diogelwch y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau, gyda phob un ohonynt yn addas. Gwelsom fod yr asesiadau risg hyn yn cael eu hadolygu bob blwyddyn ac wedi'u dyddio'n gywir.

Roedd y pecyn cymorth cyntaf yn gyflawn, ac roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf i'r lefel gywir.

**Atal a rheoli heintiau a dihalogi**
Roedd prosesau boddhaol ar waith i lanhau a dihalogi'r ardaloedd trin a'r cyfarpar yn effeithiol, wedi'u hamlinellu ym mholisi rheoli heintiau'r lleoliad. Dywedwyd wrthym fod menig yn cael eu gwisgo yn ystod triniaethau ac roedd y staff yn golchi eu dwylo cyn ac ar ôl triniaethau fel mater o drefn. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei drin yn gywir a'i waredu drwy gontract trin gwastraff. Gwelsom archwiliadau yn cael eu cynnal o amserlenni glanhau ac roedd cydymffurfiaeth â gweithdrefnau yn cael eu goruchwylio gan y cyfarwyddwr meddygol.

Dywedodd pob un o'r cleifion fod y lleoliad yn ‘lân iawn’ a bod mesurau Atal a Rheoli Heintiau yn cael eu dilyn.

**Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed**
Roedd gan y lleoliad bolisïau diogelu a chwythu'r chwiban cyfredol a phriodol ar waith. Roedd y gweithdrefnau diogelu yn cynnwys manylion y tîm diogelu lleol a siart llif ar y camau i'w cymryd pe byddai ganddynt bryder diogelu. Roedd gweithdrefnau yn cael eu cadw'n gyfredol drwy'r hyfforddiant a oedd yn cael ei fynychu gan weithredwr laser y lleoliad. Er nad oedd tystysgrif hyfforddiant diogelu i weithredwr y laser ar gael i ddechrau, roedd ar gael i AGIC yn syth ar ôl yr arolygiad. Nid oedd unigolion dan 18 oed yn cael bod ar y safle.

**Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol**
Gwelsom fod y dyfeisiau yn y lleoliad yn cael eu defnyddio'n ddiogel ac yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr.

Roedd contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau (LPA) ardystiedig. Gwelsom gofnodion o adolygiadau blynyddol o'r lleoliad gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau ac roedd adroddiad addas yn cael ei lunio, a oedd yn cynnwys asesiad risg priodol. Roedd yr adroddiad gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau yn cael ei lunio ac nid oedd ar gael i'w adolygu ar ddiwrnod yr arolygiad. Fodd bynnag, anfonwyd hwn i AGIC yn syth ar ôl yr arolygiad. Roedd protocolau triniaeth unigol ar waith ar gyfer defnyddio pob peiriant laser ac roedd y protocolau hyn wedi cael eu cymeradwyo gan ymarferydd meddygol.

Roedd y rheolau lleol ar gyfer y lleoliad yn foddhaol ac ar gael yn syth i'r staff pan fo angen. Nid oedd y rheolau lleol wedi'u llofnodi gan y gweithredwr laser.

Roedd yr ystafell ddynodedig ar gyfer triniaethau laser yn cael ei chloi pan nad oedd yn cael ei defnyddio, ac roedd yr allwedd yn cael ei storio'n ddiogel gan weithredwr laser y lleoliad. Roedd gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal ar y peiriant laser, ynghyd â gwiriadau calibradu cyn pob triniaeth. Roedd cofnodion gwasanaethu ar waith ac wedi cael eu cynnal ym mis Mai 2024. Roedd sbectolau amddiffynnol ar gael yn hawdd, roeddent mewn cyflwr addas ac yn cael eu gwirio cyn iddynt gael eu defnyddio bob tro; roeddent yn gyson â'r rheolau lleol.

**Gofal diogel a chlinigol effeithiol**
Gwelsom fod triniaethau yn cael eu rhoi yn ddiogel ac yn effeithiol yn y lleoliad. Roedd yr unig weithredwr laser wedi cael yr hyfforddiant gweithgynhyrchwr ar yr holl beiriannau ac roedd ei hyfforddiant craidd gwybodaeth hefyd yn gyfredol.

Roedd un ystafell yn cael ei defnyddio ar gyfer triniaethau laser yn y lleoliad. Gellid cloi'r ystafell hon ac roedd arwyddion priodol ar y drws i ddangos bod triniaethau laser yn cael eu cynnal yn yr ystafell.

Gwelsom dystiolaeth yng nghofnodion y cleifion fod pob claf yn ein sampl wedi cael prawf croen a bod cydnawsedd ei groen wedi cael ei brofi cyn iddo gael ei gwrs o driniaethau.

**Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd**
Roedd archwiliadau glanhau ac archwiliadau hylendid yn cael eu cynnal yn y lleoliad. Roedd trafodaethau proffesiynol yn digwydd yn rheolaidd rhwng y cyfarwyddwr meddygol a'r gweithredwr laser, yn ogystal â gweithgynhyrchwr y peiriant laser. Roedd adborth gan gleifion hefyd yn cael ei adolygu a'i drafod yn

rheolaidd yn y lleoliad. Roedd yr holl weithgareddau yn cael eu cynllunio i lywio gwelliant parhaus o'r gofal a ddarperir i'r cleifion.

**Rheoli cofnodion**

Roedd cofnodion y cleifion yn gymysgedd o gofnodion papur a digidol, ac roedd copïau caled yn cael eu storio'n ddiogel mewn cabinet dan glo a chopïau digidol yn cael eu cadw mewn system ddiogel. Roedd pob cofnod yn cael ei waredu yn unol â'r polisïau cadw arferion.

Gwnaethom edrych ar gofnodion pum claf yn Beauty Within Medi-Spa. Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth dda o gadw cofnodion. Fodd bynnag, wrth groesgyfeirio un cofnod claf â'r gofrestr triniaethau, gwelsom fod un cylch triniaeth ar goll o'r gofrestr. Gwnaethom dynnu sylw'r rheolwr y practis at hyn a gadarnhaodd fod hyn wedi ei anghofio ar yr achlysur hwn a gwnaeth ddiweddaru'r gofrestr. Gwnaethom gynghori'r lleoliad i adolygu ei weithdrefn i sicrhau bod cofnodion bob amser yn cael eu cwblhau'n ofalus.

**Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gweithdrefn gadarn ar waith i gofnodi'r holl driniaethau laser o fewn y gofrestr.**

Cadarnhaodd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod wedi cael prawf croen cyn cael triniaeth newydd. Dywedodd ymatebwyr hefyd eu bod wedi llofnodi ffurflen gydsynio cyn cael triniaeth a bod eu hanes meddygol wedi cael ei wirio cyn unrhyw driniaeth.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

**Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd**
Roedd y laser yn cael ei weithredu gan un unigol sef y rheolwr cofrestredig. Roedd y fframweithiau llywodraethu ac atebolrwydd a oedd ar waith yn addas ar gyfer maint a lefelau staffio'r lleoliad.

Gwelsom fod yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn glir ac yn gynhwysfawr. Roedd Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus a thystysgrifau cofrestru AGIC wedi'u harddangos yn yr ystafell laser. Roedd y Datganiad o Ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion yn cynnwys gwybodaeth gyfredol ac ar gael i'r cleifion.

Gwelsom fod gwiriadau manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith ar gyfer yr unig weithredwr laser.

**Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau**
Roedd cwynion gan gleifion yn cael eu goruchwylio gan yr aelod unigol o staff sy'n rheoli'r gwasanaeth. Os oedd y cwynion yn ymwneud yn uniongyrchol â'r rheolwyr, byddai'r rhain yn cael eu hadolygu gan gyfarwyddwr meddygol y lleoliad. Roedd cleifion hefyd yn cael eu hannog i leisio eu pryderon at sylw AGC. Roedd y weithdrefn gwyno yn briodol, yn gyfredol ac yn cyfeirio at AGIC fel ffordd o fynegi pryderon. Nid oedd unrhyw gwynion i ni eu hadolygu yn ystod yr arolygiad, ond cawsom sicrwydd drwy'r broses gwyno a oedd ar waith. Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw gwynion ar lafar yn cael eu nodi yn y llyfr cwynion.

**Arferion cynllunio, recriwtio, hyfforddiant a chyflogi'r gweithlu**
Gwelsom fod polisi recriwtio priodol ar waith. Roedd y polisi yn cadarnhau bod y weithdrefn yn gadarn ar gyfer casglu geirdaon, gwiriadau cyflogi a gwiriadau ardystiad sydd eu hangen cyn cyflogi.

Roedd yr unig weithredwr laser wedi ymgymryd â'r holl hyfforddiant gorfodol i barhau i fod yn gymwys yn ei rôl. Gwelsom fod hyfforddiant craidd gwybodaeth ynghyd â hyfforddiant gweithgynhyrchwr penodol ar waith. Roedd tystysgrifau ar gyfer atal a rheoli heintiau yn ogystal â diogelwch tân ar gael i ni eu hadolygu ond anfonwyd y rhain at AGIC yn syth ar ôl yr arolygiad.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyfiawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| **Pryderon uniongyrchol a nodwyd** | **Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion** | **Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder** | **Sut cafodd y pryder ei ddatrys** |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

# **Atodiad B**– Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** **Beauty Within Medi-Spa**

**Dyddiad yr arolygiad:** **5 Chwefror 2025**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| | Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | | |

# Atodiad C - Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Beauty Within Medi-Spa

## Dyddiad yr arolygiad: 5 Chwefror 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Risg/canfyddiad/mater | | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Wrth groesgyfeirio un cofnod claf â'r gofrestr triniaethau, gwelsom fod un cylch triniaeth ar goll o'r gofrestr. Gwnaethom dynnu sylw'r rheolwr y practis at hyn a gadarnhaodd fod hyn wedi ei anghofio ar yr achlysur hwn a gwnaeth ddiweddaru'r gofrestr. Gwnaethom gynghori'r lleoliad i adolygu ei weithdrefn i sicrhau bod | Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gweithdrefn gadarn ar waith i gofnodi'r holl driniaethau laser o fewn y gofrestr. | Adran 23 (3) (a) o Reoliad Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 | Er bod camgymeriad gwirioneddol wrth gofnodi paramedrau triniaeth yn y ffeil ysgrifenedig o gofnodion triniaethau, rydym ar bob achlysur yn cofnodi paramedrau triniaethau yn ffeil nodiadau cofnodion y claf, yn ogystal â'u cofnodi'n ddigidol o fewn paramedrau triniaethau ein cleifion. Ar y cyfan, mae 3 chofnod o | Neil Moaksom | Ar unwaith |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | cofnodion bob amser yn cael eu cwblhau'n ofalus. | | | baramedrau triniaethau mewn lleoliadau gwahanol. Ers hynny, rydym wedi adolygu'r broses i sicrhau bod y system hon yn syml gan osgoi unrhyw gamgymeriadau yn y dyfodol a sicrhau bod cofnodion cadarn yn cael eu cadw. | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Enw (priflythrennau):** **NEIL MOAKSOM**

**Teitl swydd:** **UNIGOLYN CYFRIFOL**

**Dyddiad:** **20/03/2025**